

CLODDFA FAWR CAER 2020

ARCHAEOLEG CWPWRDD:
CYFARWYDDIADAU



Cyflwyniad

Os na allwch chi gloddio yn yr ardd am ba bynnag reswm, beth am fynd â'r archwiliad i'ch tŷ neu fflat – a dod o hyd i'r pethau hynaf rydych chi'n berchen arnyn nhw!

Dyma ffordd wych o ymchwilio i hanes a threftadaeth diweddar Caerau a Threlái o du mewn i'ch cartref!

Beth yw Archaeoleg Cwpwrdd?

Gallech ystyried archaeoleg fel 'unrhyw beth a wnaed neu a ddefnyddir gan bobl sydd wedi'i gladdu' ... felly beth sydd wedi'i gladdu o dan eich gwely, neu yn eich cypyrddau a'ch droriau? Rydyn ni am i chi feddwl am y stori y tu ôl i'r gwrthrychau yma, ar gyfer beth maen nhw? Pa atgofion maen nhw'n eu hysgogi, a sut daethon nhw i'ch teulu?

Gallai'r gwrthrychau gynnwys:

- Pethau sydd wedi cael eu cadw mewn droriau ers blynyddoedd
- Hen recordiau finyl
- Hen ffotograffau
- Hen offer neu deganau
- Y dilledyn hynaf sydd ganddoch chi yn eich cwpwrdd ac ati
- Pethau sydd wedi'u cadw o dan y gwely rydych wedi anghofio amdanyn nhw!

Beth hoffen ni i chi ei wneud

Cam 1: Dechrau arni

Bobl Ifanc! I ddechrau, gofynnwch am ganiatâd cyn dechrau chwilio er mwyn gweld lle rydych chi'n cael chwilio – cofiwch helpu i dacluso ar ôl chwilio!

Cam 2: Dod o hyd i rywbeth neu gasgliad o bethau!

Y cam nesaf yw dewis un peth, neu gasgliad o bethau, rydych chi'n meddwl sy'n ddiddorol neu hoffech chi wybod mwy amdanyn nhw. Gall fod yn rhywbeth hen iawn neu'n rhywbeth anarferol iawn.

Cam 3: Siaradwch gyda'ch teulu

Siaradwch gydag aelodau eraill o'ch teulu neu'ch cartref er mwyn dysgu'r 'stori gefndirol' - sut daethon nhw i'ch meddiant a pha atgofion sy'n cael eu hysgogi ganddyn nhw?

Cam 4: Cofnodi'r gwrthrychau ac adrodd eu straeon

Tynnwch lun o'r gwrthrych neu gwnewch fraslun ohono ar ddarn o bapur. Yna,

gwnewch ddisgrifiad byr o'r darganfyddiad i gyd-fynd â'ch ffotograff/braslun sy'n dweud wrthon ni:

- Ble ddaethoch chi o hyd i'ch gwrthrych(au)
- Pam ddewisoch chi'r gwrthrych(au) yma?
- Pa mor hen ydy'r gwrthrych(au)? Beth mae wedi'i wneud ohono? Sut cafodd ei greu? O ble mae'n dod? (nodwch 'ddim yn gwybod' os yw'r ateb yn ddirgelwch)

Dywedwch wrthon ni am unrhyw atgofion sy'n dod i'ch meddwl chi neu unrhyw aelod arall o'r teulu wrth weld y gwrthrych, beth mae'n ei olygu i chi, neu beth ydych chi wedi dysgu amdano drwy siarad gydag eraill. Dim ond ychydig eiriau sy'n adrodd stori eich darganfyddiad sydd eu hangen!

Anfonwch eich lluniau a'ch atgofion aton ni drwy:

E-bost: hiddenhillfort@aceplace.org

Cyfyngau cymdeithasol: Instagram, Twitter, neu Facebook CAER - hashnod #cloddafawrcaer

Llaw/post: Ein Lleoliad: Dusty Forge, 460 Heol Orllewinol y Bont-faen, Trelái, Caerdydd, CF5 5BZ

Edrychwn ymlaen at weld eich canfyddiadau!

I gael rhagor o syniadau gwych am archwilio'n hanes a'n treftadaeth drwy wrthrychau, ewch i <https://cardiffmuseum.com/cy/dysgu/fy-amgueddfa-i/>

Yr Amgueddfa Cwpwrdd

Ein nod yw cynnwys detholiad o'ch gwrthrychau a'ch straeon mewn arddangosfa ddigidol a hefyd mewn arddangosfa arbennig yng Nghanolfan Dreftadaeth Gymunedol CAER ar Heol Eglwys, Caerau (bwriedir ei hagar ddechrau 2021). Rhowch wybod i ni os byddwch chi'n fodlon benthyca/rhoi eich gwrthrych i'w arddangos, neu os hoffech chi i ni arddangos eich gwrthrych fel ffotograff wrth ymyl ei stori, drwy anfon e-bost aton ni i hiddenhillfort@aceplace.org